LGBC8M/2002

CYFARFOD A GYNHALIWYD DDYDD MERCHER 27ain TACHWEDD 2002 YN NHŶ CARADOG, ST ANDREWS PLACE, CAERDYDD

Presennol:

Comisiynwyr	Ysgrifenyddiaeth
Mrs. S G Smith (Cadeirydd)	Mr. E H Lewis (Ysgrifennydd)
Mr. J E Davies (Dirprwy Gadeirydd)	Mr. S R Halsall
Mr. D H Roberts (Aelod)	Mr. C Chapman
	Mr. D Carr

1. Cofnodion cyfarfodydd y Comisiwn a gynhaliwyd ar 10fed Hydref 2002.

1.1 Cytunwyd ar y cofnodion hyn.

2. Materion yn Codi.

2.1 Arolwg o'r Ffiniau rhwng Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot a Sir Powys yn ardal Cwmtwrch.

2.1.1 **Nodwyd** fod yr adroddiad cynigion drafft wedi cael ei gyhoeddi ac mai'r dyddiad cau ar gyfer cynrychioliadau oedd 16eg Ionawr 2003.

2.2 Arolwg o'r Ffiniau rhwng Sir Gaerfyrddin a Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot yn ardal Cwmllynfell.

2.2.1 **Nodwyd** fod yr adroddiad cynigion drafft wedi cael ei gyhoeddi ac mai'r dyddiad cau ar gyfer cynrychioliadau oedd 16eg Ionawr 2003.

2.3 Arolwg o'r Ffiniau rhwng Cymunedau amrywiol yn Ninas a Sir Caerdydd.

2.3.1 **Nodwyd** fod yr adroddiad cynigion wedi cael ei gyhoeddi ar 8fed Tachwedd 2002 a'i fod bellach gyda Chynulliad Cenedlaethol Cymru i'w ystyried.

2.4 Gosod gwifrau cyflym.

2.4.1 **Nodwyd** fod y gwaith o osod gwifrau wedi cael ei gwblhau'n llwyddiannus a bod y Comisiwn bellach yn aros i galedwedd a meddalwedd cyfrifiadurol newydd gael eu gosod.

2.5 Gwefan y Comisiwn.

2.5.1 **Nodwyd** fod gwefan y Comisiwn bellach yn hollol weithredol, yn dilyn rhai anawsterau technegol blaenorol.

2.6 Cyfarfod Cyswllt Rhyng-Gomisiwn.

2.6.1 **Nodwyd â phryder** fod y cyfarfod a drefnwyd rhwng Comisiynau Ffiniau Llywodraeth Leol a Chomisiynau Ffiniau Seneddol Cymru, yr Alban a Lloegr wedi cael ei ohirio ar gais y Comisiwn Etholiadol.

2.6.2 **Cytunwyd** i gysylltu â Chomisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol yr Alban i asesu a fyddai'n ddymunol cynnal cyfarfod rhwng y ddau Gomisiwn i gyfnewid profiadau ar y methodolegau a gaiff eu defnyddio ar hyn o bryd gan y ddau gorff.

2.6.3 Pe bai cytundeb i gynnal cyfarfod o'r fath, **cytunwyd** y dylai gwahoddiadau gael eu hanfon i'r Pwyllgor Ffiniau ar gyfer Lloegr ynghyd â'r Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol newydd ar gyfer Gogledd Iwerddon iddynt hwythau gael mynychu'r cyfarfod.

2.7 Cyfarfod Blynyddol y Comisiwn 2002.

2.7.1 Er gwaethaf y nifer isel o bobl a fynychodd o'r rheini a nododd y byddent yn bresennol, **cytunwyd** y bu'r cyfarfod yn llwyddiannus ac y bu'n ymarfer gwerthfawr.

3. Arolwg o'r Siroedd Cadwedig yng Nghymru - Adroddiad Cynigion Terfynol, Cyhoeddwyd 15fed Tachwedd 2002.

3.1 **Nododd y cyfarfod** yr ohebiaeth a gafwyd gan Gymdeithas Siroedd Prydain, a'i chais i ail-gyhoeddi'r adroddiad i adlewyrchu ei theitl cywir gan y cyfeirir ati mewn rhai pwyntiau yn yr adroddiad fel "Cymdeithas Cynghorau Prydain".

3.2 **Cytunwyd** y byddai'n rhy ddrud ail-gyhoeddi'r adroddiad, ond i anfon llythyr o ymddiheuriad i'r Gymdeithas ac i addasu'r fersiwn electronig ar y wefan i adlewyrchu'r teitl cywir. **Cytunwyd hefyd** y byddai unrhyw gopïau o'r adroddiad a gaiff eu cyhoeddi yn y dyfodol yn cynnwys papur cywiriad a fyddai'n nodi'r camgymeriad.

4. Arolwg o'r Ffiniau rhwng Cymunedau Blaenhonddan a Dyffryn Clydach, Castell-nedd Port Talbot - Ymateb gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot.

4.1 **Cytunwyd** nad oedd y wybodaeth a roddwyd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot yn ddigonol i alluogi'r Comisiwn i wneud penderfyniad ar y ffiniau rhwng cymunedau Blaenhonddan a Dyffryn Clydach. Roedd angen manylion o ran datblygiad tai newydd sy'n cael ei adeiladu yn yr ardal a allai effeithio ar ganlyniad unrhyw arolwg a gynhelir yno.

4.2 **Cytunwyd** y dylai'r Comisiwn ysgrifennu eto at Gyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot i ofyn am wybodaeth fanylach na'r hyn a roddwyd eisoes am y datblygiad tai. **Cytunwyd** fod angen y wybodaeth hon cyn dechrau ar gamau drafft yr ymarfer.

5. Materion o'r Cyfarfod gyda'r Pwyllgor Llywodraeth Leol (trafodaeth).

5.1 **Cytunwyd** y bu'r cyflwyniad i'r Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai yn ymarfer llwyddiannus.

5.2 Roedd Aelodau'r Cynulliad wedi codi materion o ran y sesiwn casglu tystiolaeth gyhoeddus yn ystod yr Arolwg yn ardal Llangollen. **Cytunwyd** pe bai sesiwn o'r fath i ddigwydd eto, y byddai pryderon Aelodau'r Cynulliad a'r pryderon a fynegwyd mewn llythyrau a dderbyniwyd yn dilyn y sesiwn yn cael eu hystyried.

6. Unrhyw Fater Arall.

6.1 Cynllun Cyhoeddiadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru

6.1.1 **Nododd y Cyfarfod** gynllun cyhoeddiadau newydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

6.1.2 **Nodwyd hefyd** y cafwyd cyngor yn dilyn ymrwymiad gan y Cynulliad i gyhoeddi holl Ddatganiadau Rheoli a Memoranda Ariannol (MSFM) pob Corff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad, mai yn Saesneg yn unig y câi'r dogfennau hyn eu cyhoeddi oherwydd natur dechnegol y dogfennau. Cynghorwyd Cyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad i beidio â cheisio cyfieithu'r dogfennau hyn oherwydd y gost anghymesur y byddai hyn yn ei olygu.

6.1.3 **Cytunwyd** y byddai'r Comisiwn yn ysgrifennu at y Cynulliad i fynegi ei bryder am y polisi hwn, ac y byddai hefyd yn ysgrifennu at Fwrdd yr Iaith Gymraeg i'w hysbysu na fyddai Datganiad Rheoli a Memoranda Ariannol y Comisiwn yn ymddangos ar ei wefan ei hun ond y gellid cael mynediad iddo drwy gysylltiad â gwefan y Cynulliad ei hun.

6.2 Cyfarfod Blynyddol 2003.

6.2.1 **Cytunwyd** y dylid chwilio am leoliad yng Ngogledd Ddwyrain Cymru ar gyfer Cyfarfod Blynyddol 2003. **Awgrymwyd** y dylai'r lleoliad fod o fewn cyrraedd i'r Wyddgrug a Llaneurgain.

6.3 Dyddiadau'r Cyfarfodydd Nesaf.

6.3.1 **Cytunwyd** y cynhelir dau gyfarfod nesaf y Comisiwn ddydd Gwener 31ain Ionawr 2003 a dydd Mawrth 11eg Mawrth 2003. Dyddiad mis Mawrth hefyd fyddai'r dyddiad ar gyfer Pwyllgor Archwilio nesaf y Comisiwn.